# COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 4YDD O FEHEFIN 2025

Yn bresennol: Yr Is-gadeirydd Aranli Thomas

Y Cynghorwyr: Llywarch Davies, Richard Davies, Hefin Jones, Iwan Jones, Enid Roberts, Idwal Williams.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)
Elfed Roberts (Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriadau: Annest Smith, A. Huw Jones , Aron Roberts , Sarah Hughes.

Rhoddwyd teyrnged i'r diweddar gynghorydd Mr Keith O'Brien ar gychwyn y cyfarfod gan y Cynghorydd Hefin Jones. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano a diolchwyd am y gwaith a wnaeth dros Gyngor Cymuned Trawsfynydd a'r pentref.

## 2459 - COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y 7fed o Fai fel y rhai cywir gan y Cadeirydd, oni bai am gofnod 2247(2) a mai Mr Robat Thomas oedd yr enw a nid Mr Robat Jones.

## 2460 – CADARNHAU AELODAU'R IS-BWYLLGORAU.

Cytunwyd y byddai Mr Iwan Jones yn cynrychioli'r Cyngor ar Is-bwyllgor Allt Wen a Mr Llywarch Davies i gynrychioli y Cyngor ar bwyllgor Rhanddeiliaid Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd.

## 2461 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddwyd bod ymateb wedi ei dderbyn gan Mr Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran gyda crynodeb o ddigwyddiadau. Cytunwyd i yrru'r grynodeb ymlaen i'r AS Liz Saville Roberts.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Cytunwyd i gadw'r cofnod ar y cofnodion a bod y Cynghorydd Hefin Jones am holi beth yw'r diweddaraf efo'r sefyllfa a'r posibilrwydd o symud pethau ymlaen.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddodd y Clerc y byddai gan Ysgol Bro Hedd Wyn ddiddordeb i greu posteri yn ystod y bythefnos cyntaf ym mis Medi fel rhan o'u cynlluniau gwaith iechyd a lles i'r disgyblion ac y byddem yn ymateb i'r e-bost yn dweud y byddem yn hapus iddyn nhw wneud hyn. Dywedodd y Cynghorydd Elfed Roberts ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda'r AS Mabon ap Gwynfor er mwyn medru cael Mr Ken Skates i ddod i Drawsfynydd i gael golwg ar y sefyllfa.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod ymweliad wedi ei wneud ar y safle ar yr 20fed o Fai gan Bold Enviromental. Adroddwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei roi i ni mewn oddeutu 3 wythnos. Dywedwyd yn yr e-bost yn ogystal pe bai popeth yn iawn bod angen i ni feddwl ble y byddai'r claddedigaethau o'r amlosgfa yn mynd er mwyn osgoi unrhyw ran lle byddai yn bosib i ddwr hel. Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts bod mynwent yn Ne Cymru gyda wal gofeb gyda blychau yn y wal i roi llwch ynddo a hefyd plac ar y wal a gall hwn fod yn syniad i'r fynwent

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddodd y Clerc bod Mr Adrian Williams wedi dweud fod y Cyngor wedi dweud nad oedd ganddynt ddiddordeb ym mabwysiadu'r tir am na fyddent yn gwneud unrhyw elw ohono. Penderfynwyd i yrru e-bost i Mr Adrian Williams i erfyn arnynt gymryd y tir drosodd er mwyn rhoi llinellau gwyn arno a'i wneud yn saffach i drigolion gerdded a bod y Clerc yn copio'r Cynghorydd Sir i mewn.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddwyd bod y Cynghorydd Aranli Thomas wedi archebu'r meinciau a byddent yno mewn 3-4 wythnos.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddodd y Cyngorydd Hefin Jones bod y pensaer wedi gofyn pa amser fyddai'n gyfleus i gyfarfod. Penderfynwyd i gynnig dyddiadau i Mr Rhys Davies .

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddwyd nad oedd diweddariad pellach ac ein bod yn parhau i aros am ymgynghoriad sydd am ddigwydd gyda trigolion y pentref er mwyn gweld beth yr hoffent eu gweld yn digwydd gyda'r bont droed o fewn y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd i yrru e-bost i Ms Elin Parry Jones i ofyn am ddiweddariad ar sefyllfa.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb gan Mr Mark Mortimer yn dilyn yr e-bost diwethaf.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi gyrru'r newidiadau a oedd angen eu gwneud a bod y wefan yn awr yn barod i'w lansio. Penderfynwyd bod y swyddog Ariannol am yrru e-bost i weld os all GWE Cambrian ddarparu hyfforddiant dros teams i'r Swyddog Ariannol, y Clerc a'r Cynghorydd Hefin Jones.

2409(2) – Cerbydau y Maes Parcio - Adroddwyd bod ansicrwydd ynglŷn a pherchennog y camperfan felyn. Cytunwyd i yrru e-bost i'r cyngor eto'n gofyn am ba gamau gellid ei cymryd er mwyn cael gwared ar camperfans.

2416(3) - Ffordd y Pentref – Adroddwyd bod nifer o farciau wedi eu rhoi o amgylch y pentref er mwyn paratoi i wneud gwaith ar y ffyrdd.

2417(3) - Tender ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Mynwentydd Pencefn a Salem, Gardd Salem, Cae Chwarae Ty Llwyd a'r tir o amgylch Cofeb Hedd Wyn – Adroddodd y Swyddog Ariannol mai'r unig gytundeb sydd heb ei lenwi yw'r un llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd bod y Swyddog Ariannol yn mynd at Mr Gwyn Evans er mwyn dweud nad ydi'r cyngor yn medru dod o hyd i neb i wneud y gwaith.

2429(2) - Mynwent Salem – Adroddodd y Clerc bod pris wedi ei dderbyn gan Mr Robat Sion Jones i ail godi'r wal. Cytunwyd y byddai Mr Robat Jones yn cwblhau'r gwaith. Cytunwyd y byddai'r Is-gadeirydd Aranli Thomas yn gofyn i berchennog y Cross Foxes os y caiff Mr Robat Jones ddefnyddio'r dwr tu allan o'r Cross Foxes.

2429(4) - Ffordd gefn 7-12 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc nad oedd ymateb pellach i'r e-bost ddau fis yn ôl yn nodi bod yr ymholiad wedi ei drosglwyddo i adran benodol. Penderfynwyd ofyn am ddiweddariad unwaith yn rhagor.

2435(1) - Ffens bren rhwng Maes Graean a Cefn Gelltgwm – Adroddodd y Clerc ei bod wedi siarad ar y ffon gyda Mr Merfyn Morris a'u bod yn ymwybodol bod y ffens wedi torri a'u bod angen cwblhau'r gwaith.

2435(2) - Byrddau Dehongli ac Arwydd y Llyn - Adroddodd y Cynghorydd Sir Elfed Roberts ei fod wedi bod yn trafod gyda adran y llwybrau a'u bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ond nad oeddynt yn sicr pwy oedd wedi rhoi'r arwyddion i fyny. Cytunwyd y byddent yn trefnu i gasglu'r 3 bwrdd dehongli sydd wedi torri. Ychwanegwyd eu bod am wneud cais i gael grantiau er mwyn eu hail osod nhw. Adroddwyd hefyd bod pont droed Hafod Wen i Bodyfyddau wedi cau gan ei bod yn berryg a'r coed yn frau arni.

2440(3) – Cae Chwarae Ty Llwyd - Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi gyrru lluniau o gynlluniau o'r posibiliadau'r cae i'r Cadeirydd Aron Roberts er mwyn eu rhannu a thrigolion y stesion. Adroddwyd nad oedd y lluniau yma heb gael ei

pasio ymlaen i Ms Elin Vaughan Jones etp. Adroddwyd bod trigolion Stesion wedi gofyn am ffram i blant iau hefyd, a bod Mr Aron Roberts wedi gofyn i eraill am syniadau.

2440(5) - Arian Llys Ednowain - Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi cysylltu a swyddog o Adra ond heb glywed yn ôl ganddo am y posibilrwydd o brynnu Cae Bro Prysor. Nodwyd hefyd bod Awditor mewnol Cyngor Gwynedd wedi nodi bod gormod o arian yn cyfrif y Cyngor sy'n beth negyddol. Dywedwyd bod angen rhoi cynlluniau pendant yn ei lle i ddefnyddio'r arian.

2441(2) - Bron Gwyndy – Adroddodd y Clerc ei bod wedi ffonio adran tai Cyngor Gwynedd, ond nad oeddynt yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol am y mater yma, penderfynwyd i yrru'r e-bost ymlaen eto a chopio'r Cynghorydd Sir yn yr ohebiaeth.

2441(3) – Llwybr beics o amgylch y Llyn - Adroddwyd bod ychydig o'r llwybr wedi ei drwsio cyn ras y llyn ond bod nifer o ddiffygion yn parhau. Eglurwyd unwaith yn rhagor bod 3 Cyngor gwahanol sef Trawsfynydd, Talsarnau a Gellilydan ynghlwm yn y llwybr beiciau gan bod y llwybr yn mynd drwy'r 3 plwyf a bod ansicrwydd o'r terfynau. Penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Sir yn holi'r adran lwybrau am ragor o fanylion, a byddai'r Clerc yn gyrru e-bost i holi beth sydd am ddigwydd yn hir dymor.

2441(8) - Ysgol Bro Hedd Wyn – Adroddwyd bod Elfed Roberts y Cynghorydd Sir wedi cyfarfod a Mr Gwern ap Rhisiart a'i fod yn deall fod Trawsfynydd yn unigryw yn y sefyllfa yma a roeddynt yn falch ein bod fel cyngor wedi codi'r mater.

2454(5) - Sarn Helen - Cafwyd ymateb i e-bost Mr Myfyr Tomos gan Mr Glyn Griffin a oedd yn codi pryder am gyflwr ffordd hynafol Sarn Helen sy'n arwain o derfyn tir Tyddyn Mawr, lawr at ffin y plwy' ger Penmaen. Dywedwyd fod y darn o rwydwaith mewn sylw yn Ffordd di ddosbarth – di wyneb ,felly nad oedd yn gymwys fel blaenoriaeth uchel. Dywedodd Mr Griffin na eillid sicrhau defnydd digonol o'r cyllid sydd ganddynt. Cytunwyd i yrru'r e-bost gan Mr Griffin ymlaen i Mr Myfyr Tomos.
2456(1)

2456(1) – Diod Feddwol yn y Neuadd - Adroddodd y Cynghorydd Hefin nad oedd wedi cael cyfle i ofyn i Mrs Helen Wyn Jones, ac efallai bod ychwaneg o ddogfennau dan glo yn y seler ynglŷn a chael diod feddwol yn y Neuadd.

2456(3) – Cae chwarae Cefn Gwyn - Adroddodd y Clerc nad oedd wedi clywed yn ôl gan y cyngor ynglŷn a rhoi clo ar y glwyd yn y parc chwarae i atal defaid rhag mynd i mewn.

## 2462 - ADRODDIAD ARIANNOL

(1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol a cytunwyd y taliadau oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

(2) Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol gan Gyngor Gwynedd cadarnhawyd ac arwyddwyd y Datganiad Blynyddol gan y Cynghorydd Mr Hefin Jones gan mai ef oedd y Cadeirydd gan amlaf yn ystod y flwyddyn 2024/25. Adroddodd y Swyddog Ariannol bod yr Archwiliwr Mewnol wedi dod a dau fater i sylw sef bod angen cofnodi derbyniadau yn ogystal a thaliadau pan y bydd yn paratoi yr adroddiad ar gyfer trafod y Praesept, hefyd bod cynnydd sylweddol ym malansau'r Cyngor oherwydd ariangwerthiant Llys Ednowain. Pwysleisiwyd ei fod yn bwysig bod cynlluniau cadarn yn cael ei cytuno ar gyfer defnyddio yr arian a gofynwyd i bawb feddwl am syniadau.
Awgrymodd y Cynghorydd Enid Roberts i ail wneud y cerryg ar y llwybr yng Ngardd Salem a'r llwybrau ym Mynwent Pencefn.

2463 - GOHEBIAETH

(1) Cafwyd e-bost gan Mr Steffan Williams ar ran Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd i’n hysbysu o gyfle posib i sefydlu neu ailsefydlu Clwb Ieuenctid yn ei plwyf, a fyddai'n cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Penderfynwyd y byddem yn gofyn am gael cyfarfod gyda Mr Steffan Williams.

2464 - MATERION I’W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Adroddodd y Clerc bod ei bod wedi llenwi y ffurflen ar wefan Gan Bwyll ynglŷn a thwmpathau yn y Stesion a na chlywodd ddim yn ôl wedyn.

(2) Cytunwyd i'r Cynghorydd Enid Roberts brynu 2 fag o bridd a gwerth £5-£10 o flodau.

(3) Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod Mrs Helen Wyn Jones wedi cysylltu i ddweud bod coeden bron a chwympo i'r afon. A bod angen archwilio’r graean sydd wedi hel yn yr afon yn ogystal. Cytunwyd i yrru e-bost at Gyfoeth Naturiol Cymru i fynegi’n pryder.

(4) Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod ci yn denyg yn aml o Eirianfa Trawsfynydd LL41 4SF. Penderfynwyd i yrru e-bost i'r warden cŵn a gwarchod y cyhoedd, ac os oes unrhyw un yn ei weld yn rhydd yna dylid ffonio’r Heddlu.

(5) Adroddodd y Swyddog Ariannol yn drist iawn bod sedd wag yn awr. Cytunwyd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn hysbysebu’r sedd wag.

(6) Awgrymodd yr Is-gadeirydd Aranli Thomas ein bod yn gosod plac ar y meinciau newydd yng Ngardd Salem gyda enw Mr Keith O’Brien arno. Adroddodd y Swyddog Ariannol bod un plac yn bodoli yn barod gan y Parc Cenedlaethol, a bod angen i ni ddod o hyd iddo. Awgrymwyd y byddai’n syniad mynd i weld Mrs Glynda O’Brien i ofyn caniatâd i roi’r plac ar y gadair.

(7) Cytunwyd bod angen holi Traws-Newid pwy sy’n gyfrifol am dorri’r gwair yng nghae chwarae Bro Prysor.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

2465 - ADRODDIADAU O’R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones bod Mr Elfed ap Elwyn wedi cael ei benodi fel cyd-lynnydd i'r neuadd bentref am dair blynedd. Adroddwyd y bydd yn cychwyn ar y swydd ymhen pythefnos. Mae’r neuadd yn ceisio cael ychwaneg o grantiau, a bod amser yn brin i gael y prisiau i mewn, mewn pryd ar gyfer y 15fed o Fehefin.

**CYFARFOD NESAF YR 2IL O ORFFENNAF 2025.**